Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Out & About - cynllun chwarae yn ystod y gwyliau i blant anabl - Ysgol Tir Morfa**

**Gwasanaeth Gwarchod Cyfle Barnardos Cymru**
**Neuadd Panton**
**Dinbych**
**LL16 3TL**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/11/2023


***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Out & About - cynllun chwarae yn ystod y gwyliau i blant anabl - Ysgol Tir Morfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae Barnardo's |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Awst 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gwneud dewisiadau o ran sut i dreulio eu hamser. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus yn y lleoliad gan eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau chwarae ysgogol i'r plant i'w helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol da a'u helpu i ffynnu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau. Fodd bynnag, dylai'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis o leiaf, i sicrhau bod pob aelod o'r staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n effeithiol. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â'r staff, gan eu helpu i ddilyn polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r plant a'u teuluoedd. Mae partneriaethau cadarnhaol wedi cael eu ffurfio rhwng y staff, y rhieni, asiantaethau allanol a'r gymuned, gan sicrhau bod gwasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda ar gael i'r plant.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Gallant ddewis sut i dreulio eu hamser, gan symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau a'r cyfarpar sydd ar gael iddynt fel y dymunant. Mae'r plant yn hyderus i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion gan eu bod yn gwybod bod eu dymuniadau a'u dewisiadau unigol yn cael eu parchu. Er enghraifft, mae'r plant yn dangos neu'n gofyn i'r staff am weithgareddau penodol ac maent yn hyderus wrth roi gwybod i'r staff pan fyddant am symud i ardal fwy tawel. Gall y plant fwyta'r prydau a'r byrbrydau y maent yn dod â nhw gyda nhw o gartref pryd bynnag y byddant am wneud hynny.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn cael cymorth gan staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarn â nhw. O ganlyniad, maent yn hyderus yn mynd at oedolion sy'n ymweld â'r lleoliad ac yn cyfathrebu â nhw, fel cerddorion sy'n ymweld. Maent yn gallu cyfleu eu hanghenion yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau i'w helpu i gyfathrebu. Er enghraifft, gallant ddefnyddio cymhorthion gweledol i wella eu dealltwriaeth.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol ac yn meithrin cydberthnasau cadarn â'r staff a'u cyfoedion. Er enghraifft, roeddent yn fodlon aros eu tro i ddefnyddio'r meicroffon yn ystod gweithgaredd cerddoriaeth gyda chymorth gan y staff. Mae'r plant yn awyddus i gynnwys y staff yn eu chwarae ac i rannu eu cyflawniadau â nhw. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn fwynhau siarad â'r staff drwy 'walkie talkie', gan sgwrsio am yr hyn yr oedd yn ei wneud a chan wenu wrth i'r staff ateb drwy'r 'walkie talkie'. Roedd plentyn arall yn awyddus i'r staff ysgrifennu negeseuon ar fwrdd gwyn, gan wenu a chwerthin wrth i'r staff ddarllen y negeseuon hyn.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn ffordd gadarnhaol ac mae ganddynt ddiddordeb yn y profiadau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, gwnaeth pob un o'r plant fwynhau cymryd rhan mewn gweithgaredd cerddorol, gan ddilyn cyfarwyddiadau ac ymgysylltu'n dda â'r tasgau a roddwyd iddynt. Gellid clywed llawer o chwerthin a sgwrsio hapus yn ystod y gweithgaredd hwn ac roedd y plant wrth eu bodd yn gwrando ar eu hoff ganeuon ac yn gwrando wrth i'r cerddor chwarae caneuon ar y cyflymder roeddent wedi gofyn amdano. Mae'r plant yn mwynhau datblygu eu sgiliau corfforol drwy symud o gwmpas yr ystafell ar fyrddau sgwter, gan chwerthin a gwenu wrth i'r staff helpu i'w gwthio.

Caiff y plant eu hannog i ddysgu sgiliau newydd ac i fod mor annibynnol â phosibl. Gofynnir i'r rhai sy'n gallu gwneud hynny i osod eu cinio eu hunain allan ac i ymgymryd â gweithgareddau hunanofal mor annibynnol â phosibl. Caiff y plant hefyd eu hannog i helpu i dacluso'r adnoddau ar ddiwedd pob gweithgaredd.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Mae digon o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, sy'n golygu y byddent yn gallu rhoi sylw meddygol sylfaenol mewn argyfwng. Caiff unrhyw ddamweiniau eu cofnodi'n effeithiol a chaiff y cofnodion hyn eu llofnodi gan y rhieni. Mae'r staff yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant chwarae yn yr awyr agored, sy'n eu galluogi i wneud ymarfer corff a chael digon o awyr iach. Caiff y plant eu hannog i olchi eu dwylo cyn prydau a chaiff gweithdrefnau hylendid effeithiol eu dilyn wrth gwblhau tasgau gofal personol.

Mae'r staff yn siarad â'r plant mewn ffordd hoffus ac yn rhoi gofal ymatebol. Clywsom ddigonedd o chwerthin a thynnu coes drwy gydol ein hymweliad wrth i'r staff gymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau gyda'r plant, gan fodelu ymddygiad cadarnhaol a sgiliau cymdeithasol. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymgysylltu â nhw er mwyn lleihau unrhyw deimladau o gynnwrf neu orbryder y byddant o bosibl yn eu teimlo. Er enghraifft, pan ddaeth y sŵn yn y brif neuadd yn ormod i un plentyn, rhoddodd y staff gymorth iddo a'i helpu i ddod o hyd i ardal fwy tawel a gweithgaredd y gallai gymryd rhan ynddo. Siaradodd y staff a'r plentyn yn garedig, gan roi tawelwch meddwl iddo a'i helpu i setlo'n gyflym heb gynhyrfu. Mae'r staff yn atgoffa'r plant mewn modd caredig ond cadarn o'r hyn a ddisgwylir ganddynt yn ystod gweithgareddau, gan eu helpu i ddysgu sut i ryngweithio'n gadarnhaol. Maent yn esbonio pam nad yw rhai ymddygiadau yn briodol ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau mwy cadarnhaol wrth ryngweithio â'u cyfoedion. Maent yn annog y plant i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn chwarae gyda nhw er mwyn atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol a'u helpu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol.

Mae'r staff yn ymwybodol iawn o anghenion unigol y plant ac yn gallu darparu gweithgareddau sy'n cyfateb i'w diddordebau. Mae'r plant y mae angen mwy o gymorth arnynt i gwblhau tasgau yn cael y cymorth hwnnw, gan fod y staff yn gwybod pwy y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt o bosibl. Mae'r staff yn casglu amrywiaeth helaeth o wybodaeth am anghenion a dewisiadau'r plant cyn iddynt ddechrau yn y cynllun chwarae ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ac i ddiwallu'r anghenion hyn yn effeithiol. Gofynnir i'r rhieni helpu i gasglu gwybodaeth fanwl am ddewisiadau eu plentyn yn rheolaidd, gan alluogi'r staff i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau. Caiff taflenni dyddiadur dyddiol eu cwblhau ar gyfer pob plentyn, sy'n nodi manylion eu hamser yn y lleoliad. Mae hyn yn dangos y caiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol â'r rhieni.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i ddarparu amgylchedd diogel i'r plant. Maent yn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn cadw cofnodion cywir o'r staff, y plant a'r ymwelwyr sy'n bresennol. Mae hyn yn helpu i sicrhau na all unigolion heb awdurdod ddod i mewn i'r safle. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff unrhyw beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae ganddynt asesiadau risg ysgrifenedig manwl ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant. Caiff asesiadau risg unigol eu cwblhau ar gyfer ymweliadau â'r ardal leol, ar gyfer gweithgareddau arbenigol ac ar gyfer anghenion unigol y plant. Caiff yr holl asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol ac er mwyn gallu ymdrin ag unrhyw broblemau yn brydlon. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff a'r plant yn cymryd rhan mewn ymarferion tân. Fodd bynnag, oherwydd amlder gweithredu'r lleoliad, nid ydynt bob amser yn cael eu cynnal o leiaf bob chwe mis.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd addas i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r lleoliad yn gweithredu mewn neuadd ysgol, sy'n cynnig digon o le i nifer y plant sy'n mynychu allu symud o gwmpas ac archwilio fel y dymunant. Gall y plant hefyd ddefnyddio ardal y gegin i dreulio amser tawelach ac i gwblhau gweithgareddau crefft. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi dewis da o deganau ac adnoddau i'r plant, a chânt eu storio fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r gweithgareddau sydd ar gael yn cynnwys offerynnau cerddorol, cyfarpar chwaraeon, teganau adeiladu a dewis o gemau a phosau. Caiff yr holl ardaloedd eu cynnal a'u cadw'n addas, ac maent yn groesawgar. Mae ardaloedd awyr agored addas ar gael i'r plant, sy'n cynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol drwy ddefnyddio cyfarpar dringo neu drwy chwarae ar y teganau reidio. Ceir dewis hefyd o gyfarpar chwarae y gall defnyddwyr cadair olwyn ei ddefnyddio, sy'n golygu y gall pob plentyn fwynhau gweithgareddau awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau i'r plant. Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i hybu annibyniaeth y plant, gan gynnwys stepiau a thoiledau a sinciau lefel priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig cyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol a chynaliadwy. Mae'r holl deganau a chyfarpar o ansawdd da ac maent yn briodol ar gyfer oedrannau a galluoedd y plant. Cânt eu glanhau'n rheolaidd a chedwir cofnodion i ddangos hyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd i'r plant fynd ar ymweliadau cyffrous ac ysgogol i atyniadau a lleoedd o ddiddordeb lleol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r polisïau yn gynhwysfawr ac yn darparu amlinelliad clir o'r gweithdrefnau y dylai'r staff eu dilyn. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys gwybodaeth fanwl a disgrifiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion ac anghenion eu plentyn. Caiff yr holl ddogfennau eu gwirio a'u hadnewyddu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i werthuso ansawdd y gofal a ddarperir ac maent yn awyddus i sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu ac i wella. Maent yn gofyn i'r rhieni am adborth ar lafar yn rheolaidd ac maent yn anfon holiaduron adborth at y rhieni a'r staff. Caiff adborth hefyd ei gasglu gan y plant drwy siarad â nhw ac arsylwi ar eu dewisiadau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi llunio adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, yn amlinellu'r gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud a'r rhai a gynigir ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac maent yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan ddangos bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at yr unigolyn cyfrifol ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu anghenion hyfforddiant. Caiff cofnodion o'r cyfarfodydd goruchwylio a'r gwerthusiadau blynyddol eu cadw yn ffeiliau unigol y staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni ac asiantaethau allanol yn effeithiol. Maent yn cadw tystiolaeth mewn ffeiliau o'r wybodaeth sy'n cael ei choladu gan y rhieni am anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r holiaduron adborth gan y rhieni yn canmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Mae cyfarfodydd threfniadau cyfathrebu rheolaidd ag asiantaethau allanol sy'n ymwneud â gofal y plant yn galluogi'r staff i gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i anghenion y plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| **Safon** | **Argymhelliad/argymhellion** |
| Safon 24 – Diogelwch | Dylid cynnal ymarferion tân o leiaf bob 6 mis er mwyn sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/12/2023